



Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori

### Rheoliadau ar gyfer hysbysiad dyddiadau tymhorau ysgol

Cynigion ar gyfer Rheoliadau i ddarparu ar gyfer rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am ddyddiadau tymhorau ysgol sydd wedi'u pennu ar gyfer pob ysgol a gynhelir yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: **9 Medi 2013**

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **29 Tachwedd 2013**

# Rheoliadau ar gyfer hysbysiad dyddiadau tymhorau ysgol

- Trosolwg** Mae'r rheoliadau arfaethedig hyn yn ffurfio rhan o gynlluniau Llywodraeth Cymru i gydlynu dyddiadau tymhorau ysgol ledled Cymru, fel y nodir yn y Bil Addysg (Cymru).
- Mae Llywodraeth Cymru am i reoliadau gael eu gwneud sy'n darparu ar gyfer sut y bydd awdurdodau lleol yn rhoi gwybod iddi am ddyddiadau tymhorau sydd wedi'u pennu ar gyfer pob ysgol a gynhelir yn eu hardaloedd nhw, a beth yw'r amserlen ar gyfer hyn.
- Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn ceisio eich barn chi am y cynigion hyn.
- Sut i ymateb** Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **29 Tachwedd 2013** fan hwyraf.
- Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.
- Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn [www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau](http://www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau)
- Manylion cysylltu** I gael rhagor o wybodaeth:  
Y Gangen Llywodraethu Ysgolion  
Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion  
Yr Adran Addysg a Sgiliau  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ
- e-bost: [SMED2@cymru.gsi.gov.uk](mailto:SMED2@cymru.gsi.gov.uk)  
Ffôn: 029 2082 5485  
Ffacs: 029 2080 1044

**Diogelu data** Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhwch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

## **Cynnwys**

<b>1.</b>	<b>Rhagair y Gweinidog</b>	<b>1</b>
<b>2.</b>	<b>Cyflwyniad</b>	<b>2</b>
<b>3.</b>	<b>Cefndir deddfwriaethol y rheoliadau arfaethedig</b>	<b>3</b>
<b>4.</b>	<b>Beth yw ein cynigion ar gyfer y rheoliadau?</b>	<b>4</b>
<b>5.</b>	<b>Cwestiynau'r ymgynghoriad</b>	<b>6</b>
	<b>Atodiad</b>	<b>7</b>

# 1. Rhagair y Gweinidog

Yn rhinwedd fy swydd fel y Gweinidog Addysg a Sgiliau, rwy'n ymwybodol o'r anawsterau y mae nifer o deuluoedd sy'n gweithio'n galed ledled Cymru yn eu hwynebu o ganlyniad i amrywiadau yn nyddiadau tymhorau ysgol, ac felly, gwyliau'r ysgol.

Er mwyn rhoi sylw i'r mater hwn, mae newidiadau deddfwriaethol i'r modd y caiff dyddiadau tymhorau ysgol eu pennu wedi'u cynnwys yn y Bil Addysg (Cymru) y bu i mi ei gyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 1 Gorffennaf 2013.

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wrthi'n craffu ar y "Bil" ar hyn o bryd, ac yn amodol ar basio a derbyn Cydsyniad Brenhinol, bydd y newid o fudd i bobl Cymru. Mae'r newidiadau hyn yn golygu y bydd yn rhaid i awdurdodau lleol hysbysebu Gweinidogion Cymru am ddyddiadau tymhorau sydd wedi'u pennu ar gyfer pob ysgol a gynhelir yn eu hardaloedd nhw, a bydd gan Weinidogion Cymru bŵer i wneud rheoliadau i'w galluogi i ddarparu ar gyfer sut bydd awdurdodau lleol yn rhoi gwybod iddynt am y dyddiadau hynny, ac erbyn pryd.

Mae'r cynigion ar gyfer y rheoliadau hyn wedi'u cyhoeddi er mwyn ymgynghori arnynt. Rwy'n gwahodd ac yn croesawu barn pob rhanddeiliad allweddol ynglŷn â'r syniadau a gaiff eu cyflwyno yn yr ymgynghoriad hwn. Bydd eich cyfraniadau'n helpu i sicrhau ein bod yn rhoi'r gyfres briodol o reoliadau ar waith yng Nghymru.



Huw Lewis AC  
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau

## 2. Cyflwyniad

2.1 Cyflwynwyd y Bil Addysg (Cymru) ("y Bil") gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 1 Gorffennaf 2013.

2.2 Bydd y Bil, os bydd yn pasio proses craffu'r Cynulliad, yn derbyn Cydsyniad Brenhinol maes o law ac yn dod yn gyfraith, yn gwneud nifer o newidiadau pwysig i'r trefniadau deddfwriaethol cyfredol yng nghyswllt sut caiff dyddiadau tymhorau ysgol eu pennu ar gyfer pob ysgol a gynhelir yng Nghymru.

2.3 Cynhaliwyd ymgynghoriad 12 wythnos ynglŷn â'r cynigion o ran dyddiadau tymhorau ysgol yn y Bil, rhwng dyddiad X a dyddiad Y. Gellir gweld crynodeb o'r ymatebion yn:

<http://wales.gov.uk/consultations/education/schooltermdates/?skip=1&lang=cy>.

2.4 Mae un o'r newidiadau deddfwriaethol yn cynnwys gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i hysbysu Llywodraeth Cymru am ddyddiadau tymhorau pob ysgol a gynhelir yn eu hardaloedd nhw.

2.5 Yn ogystal, mae'r Bil yn cynnig rhoi pŵer i Weinidogion Cymru allu gwneud rheoliadau i ddarparu ar gyfer sut bydd hysbysiad o ddyddiadau tymhorau yn cael ei roi, a phryd.

### 3. Cefndir deddfwriaethol y rheoliadau arfaethedig

3.1 Nod Llywodraeth Cymru wrth gyflwyno newidiadau i'r trefniadau deddfwriaethol cyfredol ar gyfer pennu dyddiadau tymhorau yw sicrhau bod dyddiadau tymhorau ysgol yr un fath ymhob ysgol a gynhelir yng Nghymru, gydag amrywiadau achlysurol yn y dyddiadau dim ond pan fydd modd cyfiawnhau hynny.

3.2 Bydd y newidiadau arfaethedig yn golygu bod awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig yn cadw'r ddyletswydd i bennu dyddiadau tymhorau ysgol, ond bod dyletswydd newydd yn cael ei gosod arnynt i gydweithio a chydlynu â'i gilydd wrth bennu dyddiadau tymhorau, fel bod y dyddiadau a gaiff eu pennu yr un fath neu mor debyg â phosibl.

3.3 Mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio y bydd hyn yn arwain at bennu yr un dyddiadau tymhorau ym mhob ysgol a gynhelir yng Nghymru. Fodd bynnag, er gwaethaf eu hymdrechion gorau, mae'n bosibl na fydd awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu ysgolion yn gallu cytuno ar ddyddiadau tymhorau. Os bydd hyn yn digwydd, neu os bydd angen diwygio'r dyddiadau tymhorau y cytunwyd arnynt, mae'r Bil yn cynnig y bydd gan Weinidogion Cymru y pŵer i ymyrryd a dweud wrth awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig beth ddylai'r dyddiadau tymhorau ysgol fod. Caiff y pŵer hwn gan Weinidogion Cymru ei alw'n bŵer i "gyfarwyddo" awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu ysgolion.

3.4 Er mwyn i Weinidogion Cymru wybod a oes angen iddynt ystyried defnyddio eu pwerau i gyfarwyddo, mae'n rhaid iddynt gael eu hysbysu am ddyddiadau tymhorau sydd wedi'u pennu ar gyfer pob ysgol a gynhelir yng Nghymru yn gyntaf. Felly, mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i hysbysu Llywodraeth Cymru am ddyddiadau tymhorau **pob** ysgol a gynhelir yn eu hardaloedd nhw. Mae hyn yn cynnwys dyddiadau tymhorau sydd wedi'u pennu gan gyrrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig.

3.5 Mae'r Bil yn cynnig rhoi pŵer i Weinidogion Cymru allu gwneud rheoliadau a fydd yn galluogi iddynt ddarparu ar gyfer:

- cynnwys a ffurf yr hysbysiadau y mae awdurdodau lleol yn eu defnyddio i roi gwybod i Lywodraeth Cymru am ddyddiadau tymhorau;
- yr amserlen ar gyfer rhoi'r hysbysiadau hyn; a
- y drefn y mae'n rhaid ei dilyn wrth hysbysu Llywodraeth Cymru am ddyddiadau tymhorau.

## 4. Beth yw ein cynigion ar gyfer y rheoliadau?

### Cynnwys a ffurf yr hysbysiad

4.1 Bydd angen i'r hysbysiad a gaiff ei anfon gan awdurdod lleol i hysbysu Gweinidogion Cymru am ddyddiadau tymhorau pob ysgol a gynhelir yn ardal yr awdurdod gynnwys gwybodaeth hanfodol benodol. Mae hyn yn cynnwys enwau pob ysgol o'r fath, yn ogystal â dyddiadau tymhorau blwyddyn ysgol benodol sydd wedi'u pennu ar gyfer yr ysgolion hynny gan yr awdurdod lleol neu – yn achos ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig – gan gorff llywodraethu'r ysgol.

4.2 Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru am sicrhau bod cyrff llywodraethu pob ysgol wirfoddol a gynorthwyir a phob ysgol sefydledig, yn ogystal â'r awdurdod lleol ei hun, yn fodlon bod y dyddiadau tymhorau y maent wedi'u pennu ar gyfer eu hysgolion wedi'u cofnodi'n gywir ar yr hysbysiad a gaiff ei anfon gan yr awdurdod lleol at Lywodraeth Cymru.

4.3 Am y rheswm hwn, rydym yn cynnig bod angen i gadeirydd neu is-gadeirydd y corff llywodraethu, yn ogystal â chyfarwyddwr addysg yr awdurdod lleol, lofnodi'r hysbysiad i ddangos bod dyddiadau eu hysgolion yn gywir.

4.4 Mae drafft o'r hysbysiad, sy'n dangos y cynllun a'r cynnwys a gynigir, wedi'i atodi i'r ddogfen hon fel **Atodiad**.

### Yr amserlen ar gyfer rhoi'r hysbysiad

4.5 Mae rhai awdurdodau lleol yn pennu dyddiadau tymhorau hyd at 5 mlynedd ymlaen llaw, ac mae rhai eraill yn dewis eu pennu ddwy flynedd ymlaen llaw yn unig. Rydym yn cynnig bod rheoliadau'n darparu ar gyfer ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol anfon yr hysbysiad (neu bob hysbysiad "rhannol" – gweler paragraffau 7-12 isod) o ddyddiadau tymhorau pob ysgol a gynhelir yn eu hardaloedd nhw at Lywodraeth Cymru erbyn y diwrnod gwaith olaf ym mis Awst, ddwy flynedd lawn cyn dechrau'r flwyddyn ysgol dan sylw.

4.6 Gan fod Llywodraeth Cymru yn cynnig mai'r flwyddyn gyntaf y dylai'r trefniadau newydd hyn o ran dyddiadau tymhorau ddod i rym fydd y flwyddyn ysgol rhwng mis Medi 2016 a mis Gorffennaf 2017, bydd yn rhaid i'r Llywodraeth dderbyn pob hysbysiad o ddyddiadau tymhorau ar gyfer y flwyddyn ysgol hon erbyn diwedd y diwrnod gwaith ar ddydd Gwener 29 Awst 2014. Bydd hyn yn caniatáu digon o amser, os bydd angen, i Weinidogion Cymru ystyried defnyddio eu pwerau cyfarwyddo, ymgynghori ynglŷn â defnyddio'r pwerau hynny a defnyddio eu pŵer i gyfarwyddo er mwyn pennu dyddiadau tymhorau ar gyfer y flwyddyn ysgol 2016-17 yn effeithiol erbyn haf 2015.



## **Y weithdrefn y bydd awdurdodau lleol yn ei dilyn wrth iddynt hysbysu Llywodraeth Cymru am ddyddiadau tymhorau ysgol yn eu hardaloedd**

4.7 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gall fod yn anodd i awdurdod lleol sicrhau llofnod cadeirydd neu is-gadeirydd corff llywodraethu pob ysgol wirfoddol a gynorthwyir ac ysgol sefydledig ar un ddogfen bapur. Am y rheswm hwn, rydym yn cynnig ei bod yn bosibl i hysbysiad “llawn” ar gyfer pob ysgol yn ardal yr awdurdod lleol gael ei greu o sawl hysbysiad “rhannol”, pe bai'r awdurdod lleol yn dymuno bwrw ymlaen yn y ffordd hon.

4.8 Gallai hysbysiadau rhannol gynnwys dyddiadau tymhorau dim ond un ysgol, neu sawl ysgol. Fodd bynnag, dylai pob hysbysiad gynnwys gwybodaeth am faint o hysbysiadau fydd yn creu'r hysbysiad llawn, a ble yn y dilyniant o hysbysiadau mae hysbysiad penodol yn ymddangos.

4.9 Yn ymarferol, bydd hyn yn golygu cwblhau'r geiriad canlynol “Hysbysiad rhif {rhowch rif dilyniant yr hysbysiad hwn} o {rhowch faint o hysbysiadau rhannol fydd yn creu'r hysbysiad “llawn”} yw'r hysbysiad hwn a gaiff ei ddangos yn y gornel dde ar frig y ffurflen arfaethedig a nodir yn yr Atodiad i'r ddogfen hon. Er enghraifft, os mai'r pedwerydd hysbysiad mewn dilyniant o 10 hysbysiad rhannol a fydd yn creu'r hysbysiad “llawn” yw hysbysiad penodol, dylai'r geiriad hwn ddarllen “Hysbysiad rhif 4 o 10 yw'r hysbysiad hwn”.

4.10 Os cyflwynir dim ond 1 hysbysiad yn cynnwys manylion dyddiadau tymhorau pob ysgol yn ardal awdurdod lleol, dylai'r geiriad ddarllen “Hysbysiad rhif 1 o 1 yw'r hysbysiad hwn”.

4.11 Gallai pob hysbysiad fod ar ffurf electronig neu bapur, neu'n gyfuniad o'r ddau. Er enghraifft, gallai awdurdod lleol gyflwyno hysbysiad papur rhannol ar gyfer pob un o'r ysgolion y mae'n pennu dyddiadau tymhorau ar eu cyfer, ac yna 3 hysbysiad papur rhannol arall a 6 hysbysiad electronig rhannol sy'n cynnwys dyddiadau tymhorau ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig. Gyda'i gilydd, mae'r 10 hysbysiad rhannol hyn yn creu'r hysbysiad llawn.

4.12 Lle caiff hysbysiadau rhannol eu defnyddio, bydd angen i gyfarwyddwr addysg yr awdurdod lleol lofnodi pob hysbysiad, boed yn gopi papur neu electronig. Wrth gwrs, bydd hefyd angen i bob hysbysiad rhannol gynnwys llofnod cadeirydd neu is-gadeirydd pob ysgol wirfoddol a gynorthwyir a/neu ysgol sefydledig y mae dyddiadau tymhorau'r ysgol wedi'u pennu yn yr hysbysiad hwnnw.

## **5. Cwestiynau'r ymgynghoriad**

Yng nghyswllt y cynigion hyn am reoliadau ar gyfer hysbysu am ddyddiadau tymhorau ysgol, byddai Llywodraeth Cymru'n croesawu eich barn ar y cwestiynau canlynol. Defnyddiwch y templed sydd wedi'i ddarparu yn yr ymgynghoriad hwn i gofnodi eich atebion.

## Atodiad

**Hysbysiad rhif *{rhowch rif dilyniant yr hysbysiad hwn}* ○ *{rhowch faint o hysbysiadau rhannol fydd yn creu'r hysbysiad llawn}* yw'r hysbysiad hwn<sup>1</sup>**

***{Rhowch enw'r awdurdod lleol yma }***

### **Hysbysiad o ddyddiadau tymhorau a roddir yn unol ag adran 32A Deddf Addysg 2002<sup>2</sup>**

*{Mae {rhowch enw'r awdurdod lleol yma} yn eich hysbysu bod yr ysgol(ion) a ganlyn:*

*{rhowch enw'r ysgol neu'r ysgolion y mae'r hysbysiad hwn yn berthnasol iddynt yma}*

wedi pennu'r dyddiadau tymhorau isod ar gyfer y flwyddyn ysgol *{rhowch ddyddiadau'r flwyddyn ysgol y mae'r hysbysiad hwn yn berthnasol iddi yma e.e. 2016-2017}*

*{Rhowch y dyddiadau tymhorau sydd wedi'u pennu isod}.*

Dechrau Tymor yr Hydref:

Dechrau Hanner Tymor yr Hydref:

Diwedd Hanner Tymor yr Hydref

Diwedd Tymor yr Hydref:

Dechrau Tymor y Gwanwyn:

Dechrau Hanner Tymor y Gwanwyn:

Diwedd Hanner Tymor y Gwanwyn:

Diwedd Tymor y Gwanwyn:

Dechrau Tymor yr Haf:

---

<sup>1</sup> Er enghraifft, "Hysbysiad rhif 4 o 10 yw'r hysbysiad hwn".

<sup>2</sup> Mewnosodwyd adran 32A Deddf Addysg 2002 gan adran 49 Deddf Addysg (Cymru) 2014.

Dechrau Hanner Tymor yr Haf:

Diwedd Hanner Tymor yr Haf:

Diwedd Tymor yr Haf:

Llofnod (cyfarwyddwr addysg yr awdurdod lleol)

Printiwch yr enw

Dyddiad

<sup>3</sup>Llofnod (cadeirydd neu is-gadeirydd corff llywodraethu'r ysgol)

Printiwch yr enw

Enw'r ysgol

Dyddiad

---

<sup>3</sup> Rhaid i'r bloc gwybodaeth a llofnod hwn gael ei lenwi gan lofnodwr ar gyfer pob ysgol wirfoddol a gynorthwyir ac ysgol sefydledig y mae'r hysbysiad hwn yn berthnasol iddi.